## CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chydlynu Craffu**

**Dyddiad y cyfarfod:** **4 Mawrth 2024**

**Teitl:** **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru 2022-2023**

**Pwrpas yr adroddiad:**

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar berfformiad blynyddol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a rôl Cyngor Sir Ceredigion.

**Rheswm pam fod y Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:**

Er mwyn rhannu gwybodaeth a dod i benderfyniad ar berfformiad parhaus Cyngor Sir Ceredigion fel partner i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.

**Cefndir**

Mae'r ffocws ar gyfer Byrddau Diogelu yn ddeublyg. Yn gyntaf oll, amddiffyn plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth rhag camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac atal plant ac oedolion rhag perygl yn y dyfodol o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

Mae'r ddau amcan hyn yn llywio blaenoriaethau Byrddau Diogelu ac asiantaethau partneriaid wrth ystyried rhaglenni gwaith a chynlluniau blynyddol, ac adolygu eu perfformiad.

Mae cadw plant ac oedolion a allai fod angen gofal a chymorth yn ddiogel yn gyfrifoldeb i bawb. Mae hyn yn golygu teimlo'n ddiogel a bod yn ddiogel gyda'r rhai y maent yn byw gyda ac sy'n eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt, yn ogystal â bod yn ddiogel mewn amgylcheddau y tu allan i'r cartref lle gallant fyw, teithio, chwarae, dysgu, gweithio neu ymgymryd â gweithgareddau chwaraeon, diwylliannol, hamdden a gweithgareddau eraill. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn bennaf o fewn y teulu neu gyda gofalwyr ac o fewn y gymuned ehangach.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos sut mae'r asiantaethau wedi cydweithio i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

**Y sefyllfa bresennol**

Mae Ceredigion yn parhau i fod yn bartner sy'n cyfrannu'n llawn at weithgareddau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ac mae'n cymryd y dyletswyddau a roddwyd i ni i fod yn gyfranogwyr gweithredol o ddifri.

Bydd yr adroddiad blynyddol nesaf ar gyfer 2023-24 yn cael ei gyhoeddi ym mis Awst 2024.

**<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>**
**A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam, os gwelwch yn dda.**
Na

Mae'r adroddiad sydd wedi'i lunio yn allanol i'r Awdurdod Lleol.

**Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | **AMH** |
| **Cydweithio:** | **AMH** |
| **Cynnwys:** | **AMH** |
| **Atal:** | **AMH** |
| **Integreiddio:** | **AMH** |

**<u>Argymhelliad(au):</u>**

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chydlynu Craffu yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**<u>Rheswm dros argymhelliad(au):</u>**

Dim.

**<u>Enw Cyswllt:</u>** Audrey Somerton-Edwards

**<u>Dynodiad:</u>** Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

**<u>Dyddiad yr Adroddiad:</u>** 22 Chwefror 2024

**<u>Acronymau:</u>** Diffiniadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.